**Busnes a Rhanbarthau - Gogledd Cymru**
**Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth**

**Business and Regions - North Wales**
**Economy, Energy and Transport Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfeirnod chi / Your Ref: EN010137

Anfonwyd at: / Sent to: monaoffshorewindproject@planninginpectorate.gov.uk

22 Mai / May 2025

| | |
|---|---|
| Annwyl Ysgrifennydd Gwladol<br><br>**Parthed: Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith Archwilio 2010. Cais gan Mona Offshore Wind Limited ("yr Ymgeisydd") am Orchymyn sy'n rhoi Cydsyniad Datblygu ar gyfer Fferm Wynt ar y Môr arfaethedig Mona ("y Datblygiad Arfaethedig") CAIS AM WYBODAETH**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n nodi eich llythyr dyddiedig 12 Mai, 2025. Mae'r ymateb hwn yn cydlynu sawl maes polisi yn Llywodraeth Cymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymateb arwahân.<br><br>Gweler Atodiad A am ymateb i gwestiynau penodol a godwyd gan yr awdurdod archwilio. | Dear Secretary of State<br><br>**Re: Planning Act 2008 and The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010. Application by Mona Offshore Wind Limited ("the Applicant") for an Order granting Development Consent for the proposed Mona Offshore Wind Farm ("the Proposed Development") REQUEST FOR INFORMATION**<br><br>Welsh Government notes your letter of 12th May 2025. This response is a coordinated one, from across several policy areas of Welsh Government. Natural Resources Wales (NRW) will be responding separately.<br><br>Please find attached a response to specific questions raised by the examination authority at Annex A. |

Yn gywir / Yours sincerely

[redacted]

**Prif Swyddog Rhanbarthol, Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru /**
**Chief Regional Officer, North, Mid and West Wales**
**Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth / Economy, Energy and Transport Group**
**Llywodraeth Cymru / Welsh Government**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
ChiefRegionalOfficerNorth@gov.wales
Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno / Llandudno Junction, Conwy LL31 9RZ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ANNEX A**

| Paragraph | Question to: | Question | Welsh Government Response |
|---|---|---|---|
| 13 | The Applicant<br>+<br>**Welsh Government**<br>+ NRW | <u>Section 135 consent for woodland plots 02-034 and 02-036</u><br><br>The Applicant, Welsh Ministers and NRW should provide an update on: whether or not section 135 consent has been obtained for plots 02-034 and 02-036; and whether or not NRW has given occupier's consent in respect of its legal interests in Gwrych Wood (also plot 02-034 and 02-036). | The Welsh Ministers hold a leasehold interest in plots 02-034 and 02-036, and these are managed by Natural Resources Wales (NRW) on the Welsh Ministers' behalf. The Applicant and NRW continue to have constructive discussions about the legal and practical arrangements of the occupier's consent in connection with the cable crossing these plots.<br><br>NRW anticipates that final agreement is imminent, and the Welsh Minister will then be in a position to provide the s.135 consent promptly. The parties do not currently see there is any impediment to reaching an agreed position and that section 135 consent will be forthcoming in relation to these plots as soon as possible. |
| 16 | The Applicant<br>+<br>**Welsh Government**<br>+ NRW | <u>Proposed Designation of New National Park</u><br><br>The Secretary of State requests an update from Welsh Minsters and NRW(A) on the proposed designation of a new National Park in Wales based on the existing Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty and when they expect the assessment procedure to be completed. | Following the inclusion of a commitment in our Programme for Government for 2021-26, the Welsh Government has asked NRW, as our statutory advisers on Designated Landscapes, to take forward a programme of work to consider designating a new National Park based on the Clwydian Range & Dee Valley National Landscape. Following a period of engagement in 2023, and a public consultation on a Candidate Area in 2024, NRW are working towards a statutory consultation on a Designation Order in the Autumn of 2025. The outcome of this consultation will inform a final decision by NRW on the making of the Order and submission to Welsh Ministers, together with supporting documentation, for consideration by Welsh Ministers. It is anticipated that any Designation Order would be sent to the Welsh Ministers by the end of 2025.<br>At this stage it is unknown if there will be a need for Welsh Ministers to consider the need to call a public inquiry prior to determining whether to confirm, amend or refuse to confirm the Order. |

| Paragraff | Cwestiwn i: | Cwestiwn | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| 13 | Yr Ymgeisydd + **Llywodraeth Cymru** + CNC | <u>Cydsyniad Adran 135 ar gyfer plotiau coetir 02-034 a 02-036.</u><br><br>Dylai'r Ymgeisydd, Gweinidogion Cymru ac CNC ddarparu diweddariad ar y canlynol: a oes cydsyniad adran 135 wedi'i gael ar gyfer plotiau 02-034 a 02-036; ac a yw CNC wedi rhoi cydsyniad y meddiannydd o ran ei fuddiannau cyfreithiol yng Nghoed Gwrych (hefyd plot 02-034 a 02-036). | Mae Gweinidogion Cymru yn lesddeiliaid ar blotiau 02-034 a 02-036, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn eu rheoli ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Ymgeisydd a CNC yn parhau i gael trafodaethau adeiladol am y trefniadau cyfreithiol ac ymarferol ynghylch cydsyniad y feddiannydd mewn cysylltiad â'r cebl sy'n croesi'r plotiau hyn. Mae CNC yn credu bod cytundeb terfynol ar fin ei gael, a bydd Gweinidog Cymru wedyn mewn sefyllfa i roi'r cydsyniad adran 135 yn gyflym. Nid yw'r partïon ar hyn o bryd yn gweld unrhyw rwystrau i gyrraedd sefyllfa y gellir cytuno arni ac y bydd modd cael cydsyniad adran 135 ar gyfer y plotiau hyn mor fuan â phosib. |
| 16 | Yr Ymgeisydd + **Llywodraeth Cymru** + CNC | <u>Cynnig i Ddynodi Parc Cenedlaethol Newydd</u><br><br>Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ddiweddariad gan Weinidogion Cymru ac CNC(A) ar y cynnig i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a phryd maent yn disgwyl i'r broses asesu gael ei chwblhau. | Yn dilyn cynnwys ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-26, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC, fel ein cynghorwyr statudol ar Dirluniau Dynodedig, i fynd â rhaglen waith yn ei blaen i ystyried dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.<br><br>Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu yn 2023, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar Ardal Ymgeisio yn 2024, mae CNC yn gweithio i baratoi ymgynghoriad statudol ar Orchymyn Dynodi yn Hydref 2025. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar benderfyniad terfynol CNC ar wneud y Gorchymyn a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru, ynghyd â dogfennau ategol, i'w hystyried gan Weinidogion Cymru. Disgwylir y bydd unrhyw Orchymyn Dynodi yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru erbyn diwedd 2025.<br><br>Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd angen i Weinidogion Cymru ystyried yr angen i gynnal ymchwiliad cyhoeddus cyn penderfynu cadarnhau, newid neu wrthod cadarnhau'r Gorchymyn. |